Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

28 Mawrth 2014

Annwyl Syr/Madam,

**Ymgynghoriad ar y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru).

Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w cael ar wefan y Cynulliad yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9069

Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

Ystyried—

1. egwyddorion cyffredinol y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru,
2. Rhannau'r Bil, sef:
   - Trwyddedu (Rhan 2);
   - Prawf preswylio (Rhan 3);

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Ffôn / Tel: 029 2089 8025
E-bost / Email : Pwyllgor.CCLlG@cymru.gov.uk

- Cytundebau carafannau gwyliau (Rhan 4);
- Amddiffyn rhag aflonyddu (Rhan 5);
- Atodiad a chyffredinol (Rhan 6),

3. unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried,
4. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil,
5. goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, yr 'Asesiad Effaith Rheoleiddiol', sy'n amcangyfrif y costau a'r buddion o roi'r Bil ar waith), a
6. priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth).

## Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc hwn. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisiau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr haf.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i:
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk
Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd **erbyn 23 Mai 2014**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi'ch sylwadau, cofiwch:

- ddefnyddio dim mwy na phum ochr A4;
- defnyddio paragraffau wedi'u rhifo;
- (os byddwch yn eu hanfon yn electronig) byddai'n well defnyddio dogfennau Word, yn hytrach na ffeiliau pdf;
- canolbwyntio ar y cylch gorchwyl uchod.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu atodedig anfon sylwadau.  Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn gallu anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad o bosibl. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu Gwybodaeth**

Gellir gweld polisi'r Cynulliad ar ddatgelu gwybodaeth yn http://www.cynulliadcymru.org/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Fel arall, gellir gofyn am gopi caled o'r polisi hwn drwy gysylltu â'r Clerc (ffôn: 029 2089 8025).

Yn gywir



**Christine Chapman AC / AM**
Cadeirydd / Chair

**Rhestr Ddosbarthu**

Y 22 o Awdurdodau Lleol
Yr holl Fyrddau Iechyd Lleol
Pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru
Association of Caravan and Camping Exempted Organisations
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
Camping and Caravanning Club
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Dyfodol Defnyddwyr
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Cymorth Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru
National Association of Caravan Owners (NACO)
National Caravan Council
Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy o Faint Gogledd Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Un Llais Cymru
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Awdurdodau'r Heddlu
Yr Athro Steve Fothergill, Prifysgol Hallam, Sheffield
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Partneriaethau twristiaeth rhanbarthol
Cymdeithas Landlordiaid Preswyl
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
Shelter Cymru
Tai Pawb
The Caravan Club
Adrannau Safonau Masnach
Treetops Caravan Park
Asiantaeth y Swyddfa Brisio
Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru
Bwrdd Cynghori Twristiaeth Llywodraeth Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cynghrair Twristiaeth Cymru

Sefydliadau cydraddoldeb
Rhwydwaith Gwrth-dlodi Cymru
Sefydliad Bevan
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cymru Yfory
Anabledd Cymru
Diverse Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
Anabledd Dysgu Cymru

Mencap Cymru
MEWN Cymru
SCOPE Cymru
Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc
Comisiynydd y Gymraeg
Merched yn Gwneud Gwahaniaeth
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod